



CINNAMON
NETWORK

EICH DIGWYDDIAD GWEDDI DINESIG



Llyfryn Adnoddau



CYFLWYNIAD

Holl bwrpas Digwyddiadau Gweddi Dinesig yw cyfarfod arweinwyr eich cymuned, gweld beth yw eu hanghenion mwyaf ac esbonio eich bod yn cynnal Digwyddiad Gweddi Dinesig lle yr hoffech weddio am y materion a godwyd ganddynt. Mae'n ffordd syml ond effeithiol iawn o feithrin cysylltiadau a rhoi gweddi sy'n rhoi Iesu yn y canol wrth wraidd eich cymuned.

Mae'r angen cynyddol am ddefnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau prin yn arwain at fwy o weithio mewn partneriaeth. Mae Digwyddiadau Gweddi Dinesig yn gyfle anhygoel i ddod â'r gymuned at ei gilydd er mwyn crynhoi'n hadnoddau a'n harbenigedd, cydgysylltu ein hymdrechion a chreu atebion newydd i helpu'r rheini yn ein cymunedau sydd angen yr help hwnnw fwyaf.

Mae'r Cinnamon Faith Action Audits yn dangos bod 38% o brosiectau cymunedol yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau newid a thrawsnewid mewn cymunedau. Mae hyn yn gadael nifer sylweddol iawn, 62% o brosiectau cymunedol a allai gael mwy o effaith drwy gydweithio â sefydliadau eraill.

Dychmygwch sut y gellid cryfhau gwaith gwych eich eglwys a'i ehangu gyda chymorth gan heddluoedd, llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog, darparwyr tai, a'r rhai sy'n gweithio ym myd addysg a gofal iechyd.

- Gellid datblygu prosiectau sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol trefi a dinasoedd a chadw cyn-droseddwyr allan o garchar drwy gael perthynas well â'r heddlu lleol.
- Gellid ehangu prosiectau i gadw diddordeb plant mewn addysg brif ffrwd neu ddarparu prydu iddynt yn ystod gwyliau'r ysgol drwy gael perthynas well ag ysgolion.
- Gellid cryfhau prosiectau sy'n darparu tai i'r digartref, yn bwydo'r newynog ac yn croesawu ffoaduriaid drwy gael perthynas well ag awdurdodau lleol.
- Gallai prosiectau sy'n mynd i'r afael ag iechyd meddwl, henoed sy'n ynysig a mamau beichiog sydd heb rwydweithiau cymorth fod yn fwy effeithiol drwy weithio mewn partneriaeth â gweithwyr iechyd proffesiynol lleol.

Y GWAHODDIAD

Er mwyn annog cysylltiadau dinesig a chymunedol cryfach a sefydlu camau gweithredu cymdeithasol sy'n seiliedig ar weddi ac sy'n rhoi Iesu yn y canol, hoffai Cinnamon Network wahodd eglwysi o bob cwr o Gymru i gynnal Digwyddiad Gweddi Dinesig. Bydd y digwyddiadau'n sbarduno lefel newydd o weddi ar gyfer ein cymunedau ac mewn partneriaeth â nhw.

Mae gweddio'n ganolog i'n perthynas ag Iesu Grist. Drwy ymweld ag arweinwyr yn eich ardal a gofyn iddynt am beth allwch chi weddio, rydych yn gwahodd Duw i weithio yn eu bywydau ac yn eich bywyd chi hefyd.

- Dychmygwch ofyn i arweinwyr ym myd busnes, addysg, iechyd, y cyfryngau, llywodraeth a'r heddlu am y nod mawr maent yn gweithio tuag ato fel y gall yr eglwys weddio drostynt.
- Dychmygwch wahodd arweinwyr ac eraill o'ch cymuned leol i Ddigwyddiad Gweddi Dinesig lle mae gweddi dros y gymuned leol ar gael i bawb.
- Dychmygwch y cysylltiadau a fydd yn cael eu meithrin a'u cryfhau wrth i chi ymroi i weddio dros weddnewid yn eich cymuned.
- Dychmygwch beth fydd yn digwydd wrth osod Iesu a gweddi gyhoeddus yng nghanol popeth mae eglwysi eich pentref, tref a dinas yn gysylltiedig ag ef.
- Dychmygwch wahodd eglwysi lleol i fabwysiadu rhythm gweddi ar gyfer gweddnewid cymuned.



Gallech fabwysiadu rhythm gweddi ar gyfer gweddnewid cymuned drwy ganolbwyntio ar sector gwahanol o gymdeithas bob dydd o'r wythnos. Daw hwn o'r traddodiad Cristnogol Mynachaidd, sy'n annog patrwm gweddi a elwir yn 'wasanaeth beunyddiol'. Er enghraifft:

| | |
|---------------|--|
| Dydd Llun: | Busnes a Chyllid |
| Dydd Mawrth: | Addysg a Dysgu |
| Dydd Mercher: | Iechyd a Lles |
| Dydd Iau: | Y Cyfryngau, y Celfyddydau ac Adloniant |
| Dydd Gwener: | Gwleidyddiaeth a Llywodraeth |
| Dydd Sadwrn: | Heddlu a Diogelwch |
| Dydd Sul: | Teulu a Chymuned |

A WNEWCH CHI YMUNO Â NI?

Byddem yn hoffi gweld Digwyddiadau Gweddi Dinesig yn cael eu cynnal mewn pentrefi, trefi a dinasoedd ar hyd a lled Cymru. Allwch chi gynnal un yn eich ardal chi?

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys llawer o syniadau, awgrymiadau a chynghor ymarferol i'w gwneud hi mor hawdd â phosibl i chi ymweld ag arweinwyr yn eich cymuned, gofyn iddynt am geisiadau am weddi a'u gwahodd i'ch Digwyddiad Gweddi Dinesig.

Ymunwch â ni i weddio dros ein cymunedau a'n partneriaeth gyda nhw. Wrth i ni weddio law yn llaw â gweithredu, credwn y byddwn yn gweld Duw yn cyflawni pethau gwell hyd yn oed yn ein cymunedau – ac ynom ni ein hunain!

Dewch i fod yn rhan o'r gwahaniaeth.



“Mae Cymru'n genedl ag iddi amrywiaeth gyfoethog o bobl, mae hefyd yn genedl sydd angen Iesu yn ganolog iddi. Mae digwyddiadau yn ffordd o ddod ag Iesu i ganol ein cymunedau. Maen nhw hefyd yn ffordd o ddathlu'n gwahaniaethau, o gynnig cyfle i chwalu rhwystrau rhwng sectorau ac i helpu i feithrin perthynas yn seiliedig ar ddyhead cyffredin i weld ein cenedl yn ffynnu.”

Uzo Iwobi, Prif Swyddog Gweithredol, Race Council Cymru

“Mae Digwyddiadau Gweddi Dinesig yn gyfle anhygoel i ddod ynghyd o wahanol feysydd o gymdeithas i weddio am weddnewid yn ein pentrefi, trefi, dinasoedd a'n cenedl. Un o'r pethau unigryw dwi'n eu mwynhau am y digwyddiadau hyn yw'r fraint o gael gweddio dros ddynion a menywod sy'n gweithio a gwasanaethu yn y meysydd hynny, mae'n brofiad sy'n gwneud rhywun yn wylaidd iawn.”

Mandy Bayton
Cynghorydd Cymru
The Cinnamon Network

“Dylai popeth a wnawn ac rydym am ei gyflawni ar gyfer Teyrnas Dduw fod yn seiliedig ar weddi. Os ydym am i'n cymunedau ddarganfod cariad gweddnewidiol Iesu mae'n rhaid i ni weddio drostyn nhw, gyda nhw ac ochr yn ochr â nhw.”

Julian Richards
New Wine Cymru

“Mae ymgysylltu ag arweinwyr dinesig mor bwysig. Yn Abertawe, rydym wedi ceisio meithrin perthynas gadarnhaol ag arweinwyr y gymuned. Rydym wedi cynnal brecwast gweddi ac yn ceisio gwasanaethu ein dinas yn ymarferol a gwylaidd.”

Dave Ward
Cadeirydd, HOPE Abertawe

“Mae gweddio'n un o'r pethau mwyaf personol y gallwn ei wneud. Yr her a wynebwn yw sut i'w wneud yn rhan ganolog o'r hyn sy'n digwydd yn ein cymunedau. Mae Digwyddiadau Gweddi Dinesig yn ffordd strategol o roi gweddi lle mae Crist yn y canol yn ganolog yn ein pentrefi, trefi a dinasoedd.”

Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

PARATOI AT EICH DIGWYDDIAD

Yr ateb i sicrhau Digwyddiad Gweddi Dinesig llwyddiannus yw meithrin cysylltiadau cryf gydag arweinwyr saith sector cymdeithas. Ystyriwch gyfarfod a gwahodd y canlynol:

- 1. Busnes a Chyllid:** Perchnogion busnes ac arweinwyr busnes, y Siambr Fasnach leol
- 2. Addysg a Dysgu:** Arweinwyr o ysgolion, colegau, prifysgolion, adrannau addysg awdurdodau lleol
- 3. Iechyd a Lles:** Cyfarwyddwyr iechyd cyhoeddus, grwpiau comisiynu clinigol, aelodau bwrdd iechyd a lles
- 4. Y Cyfryngau, y Celfyddydau ac Adloniant:** Golygyddion papurau newydd lleol, rheolwyr gorsafoedd radio
- 5. Gwleidyddiaeth a Llywodraeth:** Aelodau Cynulliad Cymru, Aelodau Seneddol, Meiri, cynghorwyr lleol, prif weithredwyr a swyddogion cynghorau
- 6. Heddlu a Diogelwch:** Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, prif gwnstabiliaid a swyddogion yr heddlu, swyddogion tân ac achub
- 7. Teulu a Chymuned:** Arweinwyr sefydliadau'r sector gwirfoddol lleol



Cyfarfod Arweinwyr

Trefnu i gyfarfod arweinydd sy'n cynrychioli pob un o'r saith sector y byddwch chi'n gweddio drostynt. Gofyn i'r arweinwyr hyn nodi un nod maent yn gweithio ato y gallwch weddio drosto. Eu gwahodd i'ch digwyddiad gweddi a gadael gwahoddiad personol iddynt.

Dosbarthu Nodau Cymunedol

Cynlluniwch ac argraffwch daflen neu gerdyn post gyda'r nodau a gasglwyd gan yr arweinwyr. Argraffwch y rhain i'w dosbarthu yn y digwyddiad.

Lleoliad

Rydym yn awgrymu lleoliad niwtral, fel Neuadd y Dref, canolfan gymuned, neu westy canolog o bosibl, y gall pawb ei gyrraedd yn hawdd.

Dyddiad ac Amser

Mae digwyddiadau brecwast gweddi neu ddigwyddiadau gweddi min nos ar neu'n agos i ddyddiadau arbennig, gyda bwyd yn gweithio'n dda. Er enghraifft, byddai digwyddiad yn agos at Ddydd Gŵyl Dewi neu'n dilyn etholiad lleol neu genedlaethol yn ddelfrydol. Trefnwch frecwast gweddi rhwng 7.30-9:30am neu ddigwyddiadau min nos rhwng 7.00-9.00pm i gael y niferoedd mwyaf.

Enw dylanwadol

Mae cael enw dylanwadol yn gallu helpu i greu diddordeb yn eich digwyddiad. Byddai gwahoddiadau wedi'u hanfon gan Aelod Cynulliad, AS, Maer neu Arweinydd yr Awdurdod Lleol yn ddelfrydol. Mae rhai Digwyddiadau Gweddi Dinesig yn defnyddio gwahoddiadau sy'n cynnwys geiriau fel 'bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ym Mhresenoldeb y Maer' neu unigolyn pwysig arall.

Arlwyo

Mae meithrin cysylltiadau wrth fwyta ac yfed yn rhan bwysig iawn o ddigwyddiad llwyddiannus. Awgrymw'n eich bod yn gweini bwyd i bobl ar eu heistedd, yn hytrach na fel bwffe, i sicrhau bod eich gwahoddedigion yn cael digon o amser i sgwrsio.

Tocynnau

Mae angen gwybod faint o bobl i baratoi ar eu cyfer felly mae'n bwysig cael tocynnau i'r digwyddiad. Fel arfer, mae prisiau'n amrywio o £8-£18 y person yn dibynnu ar gostau'r digwyddiad. Er mwyn cadw costau'r digwyddiad mor isel â phosibl, gallai eglwysi lleol helpu i dalu am y tocynnau. Fel arall, gallech chwilio am noddwr addas. Cofiwch gadw nifer o seddi ar gyfer yr arweinwyr dinesig a gwahoddedigion eraill rydych am eu cael yn y digwyddiad.

Siaradwyr

Bydd siaradwr da o'r gymuned leol yn helpu i roi awdurdod i'ch digwyddiad a sicrhau bod nodau'r gymuned yn parhau i fod yn ganolog i'ch gweddïau. Rydym yn argymhell gwahodd Prif Weithredwr yr awdurdod lleol, Arweinydd y Cyngor, Aelod o'r Cynulliad neu AS i siarad. Gofynnwch iddynt dreulio tua 15-20 munud yn rhannu pleserau a heriau eu gwaith a'u blaenoriaethau ar gyfer y gymuned leol.

Dewisiadau eraill o siaradwyr

- Gallai person enwog ddenu pobl. Gofynnwch iddo ef neu hi rannu rhywfaint ar ei ffydd bersonol a chysylltu hynny â'r hyn maent yn ei hoffi am y dref a sut mae sefydliadau lleol yn gweithio i'w gwella.
- Gwahoddwch arweinydd Cristnogol i siarad. Efallai y gallai ef neu hi rannu gweledigaeth am brosiect newydd neu gyfredol yn y gymuned gan ddangos sut mae eglwysi yn cydweithio eisoes ag awdurdodau lleol.
- Ystyriwch gael dau siaradwr. Gallai arweinydd Cristnogol lleol siarad am tua phedair munud yna'r prif siaradwr - arweinydd dinesig lleol.



Paratoi'r Gweddïau

Mae yna dri math o weddïau i'w hystyried:

- **Gweddïau Agoriadol a Chloi**
Gofynnwch i'r unigolion dan sylw ymlaen llaw. Rhowch arweiniad iddynt ar hyd a naws y gweddïau. Cofiwch fod angen i bawb ddeall y gweddïau.
- **Gweddi dros Nodau'r Gymuned**
Rhannwch nodau'r gymuned a nodwyd gan yr arweinwyr gyda'r rhai a fydd yn gweddïo drostynt ymlaen llaw, fel y gallant ddatblygu gweddïau priodol a pherthnasol i bawb a fydd yn bresennol.
- **Gweddïau gan Arweinwyr**
Gofynnwch i arweinydd lleol ddarllen un o'r gweddïau a ysgrifennwyd ymlaen llaw yn y llyfryn hwn sy'n cyfateb i'w sector busnes neu fywyd eu cymuned.

CYNNAL Y DIGWYDDIAD

Paratoi tîm i gynnig croeso cynnes i'ch gwahoddedigion.

Dewiswch bobl i fod yn gyfrifol am bob bwrdd i hwyluso sgwrs a gweddiâu.

Argraffwch fathodynau i helpu pobl i gyfarch ei gilydd a nodi'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli.

Dilynwch drefn y digwyddiad yn ofalus (rydym wedi awgrymu un yn y llyfryn hwn).

Mae'n bwysig gorffen ar amser, i barchu'r rhai sydd angen mynd nôl i'r gwaith neu sydd ag ymrwymadau eraill (yn enwedig yn achos digwyddiadau brecwast).

Os ydych chi'n mynd i gael cyfnod o addoliad yn y digwyddiad, defnyddiwch emynau neu ganeuon cyfarwydd ac argraffu'r geiriau i'r gwahoddedigion.

Y Gweddiâu

Fel y soniwyd eisoes, mae'n bwysig trefnu gweddiâu ymlaen llaw i osgoi unrhyw sefyllfa chwithig neu syndod.

Gallwch rannu nodau'r gymuned a gyflwynwyd gan eich arweinwyr dinesig ymlaen llaw gyda gwahoddedigion. Dyma ganolbwynt y gweddiâu. Yna, gallwch ddarparu cardiau gwag a gofyn i wahoddedigion ysgrifennu eu nodau eu hunain ar gyfer gweddi. Gellir casglu'r rhain i'r arweinwyr weddio drostynt.

Ystyriwch dreulio rhai munudau'n trafod y pwnc a godwyd gan y siaradwr a chloi gyda gweddi gan y sawl sy'n gyfrifol am y bwrdd. Mae arddulliau gweddi'n amrywio ac yn bersonol, felly mae angen i chi sicrhau bod y rhai sy'n arwain y gweddiâu'n sensitif.

Y Beibl

Ystyriwch ddarllenid byr fel darn o Jeremeia 29 i derfynu'r digwyddiad.

"Ceisiwch heddiw y ddinas y caethgludais chwi iddi, a gweddiwch drosti at yr Arglwydd, oherwydd yn ei heddwch hi y bydd heddwch i chwi."

Jeremeia 29:7

"Mae gweddi'n newid popeth. Mae'n treiddio trwy broblemau hirdymor gan roi atebion nefol. Mae'n cyflwyno'n ceisiadau gerbron gorsedd dragwyddol a Duw Hollalluog sy'n cael ei symud gan eiriolaeth angerddol. Mae'n arf rhyfel sy'n gallu gosod ein Cenedl mewn ffafr Ddwylf ac ymyrraeth oruwchnaturiol. Gall Digwyddiadau Gweddi Dinesig gyfrannu'n strategol at ryddhau grym gweddi i'n pentrefi, trefi a dinasoedd."

Parch Denise H Curgenvan

Uwch Weinidog, Hope Church Y Drenewydd

"Yr hyn sy'n anhygoel am weddi yw ei bod yn newid ein cymunedau yn ogystal â ni ein hunain. Mae Digwyddiadau Gweddi Dinesig yn cydnabod rôl bwysig gweddi i feithrin perthynas a chryfhau cysylltiadau rhwng arweinwyr mewn cymdeithas."

Dai Lloyd AC

Aelod Cynulliad Cymru dros dros Dde Orllewin Cymru

"Fel Cristnogion mae angen i ni fynd ati'n fwriadol i sicrhau perthynas dda gyda'r rheini yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae Brecwastau Gweddi Dinesig yn gyfle i weddio dros ein cymunedau a'n cenedl ac yn gyfle unigryw i ddatblygu'r cysylltiadau hynny."

Rob Parsons

Care for the Family Cymru

"Mae dros 200 o bobl yn dod i Frecwast Gweddi Sir Benfro a thros y blynyddoedd mae'r Brecwast Gweddi wedi dod ag arweinwyr dinesig, arweinwyr Cristnogol a chynulleidfaoedd o bob cefndir ynghyd mewn profiad cyfoethog o addoliad, gweddi, gweindogaeth Gristnogol a brecwast gwych wrth gwrs."

Parch John D Welsby MA

Canolfan Gristnogol Emmanuel, Hwlfordd

Trefn Bosibl

| | |
|-------|--|
| 07:30 | Croeso |
| 07:32 | Gweddi agoriadol |
| 07:33 | Brecwast |
| 08:10 | Emyn |
| 08:15 | Siaradwr cyntaf |
| 08:20 | Gweddïau dros nodau'r gymuned |
| 08:30 | Prif siaradwr |
| 08:50 | Gweddïau dros sectorau |
| 09:00 | Gweddïau neu drafodaeth dan arweiniad y sawl sy'n gyfrifol am y bwrdd |
| 09:05 | Emyn |
| 09:10 | Sylwadau cloi |
| 09:13 | Gweddi i gloi |
| 09:15 | Gorffen |

Opsiynau ar gyfer eich Digwyddiad

- Gallech gynnal derbyniad sudd oren a choffi i'ch gwahoddedigion tua 30 munud cyn y prif ddigwyddiad.
- Cofiwch y gallai fod yn anoddach i bobl ddod i ddigwyddiad amser cinio.
- Ystyriwch seddi penodol i annog rhyngweithio ac i helpu'r rhai sy'n gyfrifol am y gwahanol fyrddau i weddio'n benodol dros y rhai ar eu bwrdd.
- Gallech ystyried gynnwys ychydig o funudau o weddi agored dan arweiniad y rhai sy'n gyfrifol am y byrddau.
- Er mwyn cael ffocws gweledol ychwanegol, ewch ati i greu neu arddangos ffilm fer sy'n dangos prosiectau gweithredu cymdeithasol lleol a pha mor bwerus yw gweithio mewn partneriaeth.
- Cofiwch ddarparu cardiau bychan a gofyn i wahoddedigion ysgrifennu eu gweddi eu hunain dros y gymuned.
- Ehangwch gyrhaeddiad ac effaith eich digwyddiad drwy wahodd prosiectau gweithredu cymdeithasol lleol i gael stondin neu lle arddangos.

Ystyriaethau Eraill

Isod, fe welwch rai awgrymiadau ychwanegol gan drefnwyr Digwyddiadau Gweddi Dinesig profiadol:

- Trefnwch dîm da sy'n gallu cyrraedd ar draws eich cymuned gyda'u cysylltiadau a'u dylanwad (nid gweinyddwyr yn unig).
- Gwnewch yn siŵr bod gan y lleoliad ddarpariaeth arlwyyo dda.
- Trefnwch ar y cychwyn bod Aelod Cynulliad, Aelod Seneddol, Maer, Arweinydd neu Brif Weithredwr eich cyngor yn rhan o'r digwyddiad.
- Rhowch gyhoeddusrwydd eang i'r digwyddiad a gwahodd digon o bobl. Dechreuwch wahodd pobl yn gynnar i sicrhau bod llawer yn bresennol.
- Rhowch wahoddiad a chynnwys busnesau lleol a'u rhwydweithiau busnes. Trefnwch gyfarfod gydag arweinydd dinesig allweddol neu'r Maer wythnos cyn y digwyddiad i'w briffio.
- Gofynnwch i'ch gwahoddedigion allweddol "Oes yna unrhyw beth y gallwn ni weddio drosto i chi'n bersonol?"
- Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.
- Efallai y byddai busnes Cristnogol lleol neu gyfrannwr ariannol allweddol am noddi'r digwyddiad neu dalu'r gost. Ond mae pobl yn fwy tebygol o ddod os ydynt wedi talu rhywbeth, hyd yn oed os mai swm bach ydyw.



GWEDDIAU

Ysgrifennwyd y gweddïau canlynol gan bobl o bob cwr o Gymru. Gallech eu defnyddio yn eich digwyddiad.

Busnes a Chyllid



Arglwydd,

Diolch i ti am yr holl arweinwyr busnes sy'n cefnogi ein cymunedau lleol ac am yr effaith gadarnhaol maen nhw'n ei chael drwy gyflogi pobl a darparu nwyddau a gwasanaethau.

Diolch i ti am fod Iesu wedi rhoi esiampl o arwain fel gwas, gan roi anghenion y rhai roedd yn eu harwain o flaen ei anghenion ef ei hun. Cynorthwya arweinwyr ein cymuned fusnes i ddilyn yr esiampl honno wrth wasanaethu eu staff a'r gymuned ehangach.

Diolch i ti am greadigrwydd a dewrder ein hentrepreneuriaid a'r cyfleoedd maen nhw'n eu rhoi, yn enwedig i arweinwyr ifanc, ddatblygu sgiliau a chymwysterau newydd drwy brentisiaethau a hyfforddiant.

Gweddiwn i Ti amddiffyn ein harweinwyr busnes sy'n teimlo dan bwysau oherwydd ansicrwydd gwleidyddol neu ariannol a gofynnwn i Ti eu llanw â heddrwy Dy Ysbryd Glân.

Gweddiwn y byddi Di'n ysbrydoli ein cymuned fusnes i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o sicrhau cydbwysedd rhwng dyheadau ariannol a chyfrifoldeb cymdeithasol er budd pawb, yn enwedig y rhai sydd ar y cyrion.

Amen.

Robert Kissick

Prif Swyddog Gweithredol, 2buy2

Addysg a Dysgu



Arglwydd,

Diolchwn am ein hetifeddiaeth o barch at addysg ac at addysgwyr.

Am rodd fawr Griffith Jones Llanddowror o lythrennedd i'n cyndeidiau ac i Syr Hugh Owen, am sbarduno ein gwerin-bobl i gyfrannu o'u tlodi i adeiladu ein prifysgol gyntaf, rhown ddiolch.

Am her a chyffro'r weledigaeth sy'n wynebu ein hoes ninnau, rhown ddiolch. Diolchwn am fyw mewn gwlad fach sy'n mentro i barchu ein plant fel unigolion, fel cyfranwyr, fel dinasyddion ac fel dysgwyr.

Bendithia ein hathrawon wrth iddyn nhw ddatblygu trefn addysg newydd i Gymru fydd yn sicrhau ein bod yn parchu hawl pob plentyn i dyfu i fod yn wybodus ac yn ddoeth, yn iach ac yn hapus, yn egwyddorol a mentrus, yn hyderus a chreadigol.

Bendithia waith ein hathrawon a'u cynorthwywyr wrth iddyn nhw ymateb yn ddyddiol i anghenion bywydau cymhleth a heriol ein pobl ifanc, yn eu holl amrywiaeth.

Amen.

Pennaeth

De Cymru

GWEDDIAU

Iechyd a Lles



Dduw ein Iachâwr,

Ti a'n creaisd a Ti sy'n gwybod anghenion ein corff, ein meddwl a'n hysbryd yn well na ni; cynorthwya ni i fod yn sanctaidd, cynorthwya ni i fod yn gyflawn.

Cynorthwya ni i gofio mai Ti sy'n gyfrifol am bob iachâd, fel Ffynhonnell pob cariad a daioni.

Diolchwn i Ti am bawb sy'n gweithio'n anhunanol yn ein proffesiynau meddygol a gofalu. Gofynnwn i Ti roi dy ddoethineb a'th gryfder iddynt wrth iddynt geisio ateb galwadau ac wynebu pwysau bob dydd.

Cynorthwya ni i ofalu am ein gilydd ac adnabod dy wyneb, dy ddwyfoldeb, a sylweddoli ein bod ni'n dy wasanaethu Di wrth wasanaethu ein gilydd.

Fel derbynwyr gofal, cynorthwyo ni i fod yn ddigon gostyngedig i dderbyn yr hyn y bydd pob un ohonom ei angen weithiau, fel y derbyniodd y disgyblion yr Arglwydd yn golchi eu traed.

Yn enw ein Harglwydd byw, Iesu Grist,

Amen.

Mr David Miller

Llawfeddyg Orthopaedig Ymgynghorol

Y Cyfryngau, y Celfyddydau ac Adloniant



Arglwydd Dduw,

Rydym ni'n cydnabod mai ti yw Creawdwr y byd a gwyddom fod creadigrwydd yn deillio ohonot ti.

Gweddiwn dros y rhai syn rhan o'r diwydiant celfyddydau creadigol a pherfformio ledled Cymru. Gofynnwn i ti eu bendithio wrth iddyn nhw ddefnyddio eu sgiliau creadigol a'u gallu perfformio er budd eraill yn ein gwlad.

Gofynnwn i ti helpu pob un ohonom yn ein hymdrechion er budd y diwydiant hwn, cynorthwya'r rhai sy'n arwain y maes gwaith hwn i fod yn arweinwyr ysbrydoledig sy'n defnyddio ac yn annog y rhoddion a roddest i ni.

Boed i ni wneud popeth mewn modd cadarnhaol er clod a gogoniant llwyr i'th enw sanctaidd.

Yn enw Iesu y gweddiwn,

Amen.

Ify Iwobi

Pianydd/Cyfansoddwr

GWEDDIAU

Llywodraeth a Gwleidyddiaeth



Dad Nefol,

Rwyt wedi galw arnom i weddio dros y rhai mewn awdurdod, yn cynnwys y rhai mewn swyddi gwleidyddol sy'n gwasanaethu eu cymunedau a Chymru ein gwlad.

Cawn ein hatgoffa fod pob awdurdod yn dod oddi wrthyt ti felly gofynnwn i'n Cynghorwyr, Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol, ac Aelodau Ty'r Arglwyddi a Senedd Ewrop fod yn warchodwyr doeth a ffyddlon o'r cyfrifoldebau a ymddiriedwyd iddyn nhw gennyt ti.

Gweddiwn drostynt a dros bawb sy'n gweithio yn y llywodraeth ac yn datblygu polisiau sy'n effeithio ar Gymru, y byddan nhw'n dilyn esiampl Iesu, yn gwasanaethu eraill ag uniondeb, gonestrwydd, ymroddiad a gostyngeiddrwydd.

Bendithia nhw â doethineb yr Ysbryd Glân wrth iddynt wneud eu penderfyniadau, rho ras iddyn nhw a'u teuluoedd i ddioddef sylwadau a beirniadaeth annheg, a gwna iddyn nhw fod yn gyfryngau newid cadarnhaol i'r rhai a wasanaethant.

Yn enw Iesu,

Amen.

Darren Millar AC

Aelod Cynulliad Cymru dros Orllewin Clwyd

Heddlu a Diogelwch



Dduw Cyfawnder,

Gofynnwn i ti fendithio ac amddiffyn ein Heddlu a'n gwasanaethau diogelwch.

Diolch i Ti am y dynion a'r menywod sy'n barod i roi eu hunain mewn perygl i amddiffyn ein holl gymunedau rhag y rhai a fyddai am beri loes i ni.

Gweddiwn am gryfder a dewrder i'r rhai sy'n amddiffyn ein pobl fwyaf bregus - y lleiaf a'r colledig - gan ddod â heddwch, gobaith a chysur.

Gofynnwn iddyn nhw weithredu'n gyfiawn, caru tosturi a cherdded yn wylaidd gyda Thi.

Dduw Dad, diolchwn i Ti amdanyn nhw.

Yn Enw Crist,

Amen.

Josh Jones

Heddwas wedi ymddeol, Heddlu De Cymru

GWEDDIAU

Teulu a Chymuned



Ein Tad,

Diolch am y gwahoddiad i ymgynnull o amgylch dy fwrdd. Diolch i ti am gyfoeth ein hamrywiaeth wrth i ni rannu bywyd a bwyta gyda'n gilydd.

Diolch i ti am y rhai a fu yma o'n blaenau, lle mae yna gadair wag erbyn hyn. Diolchwn iddyn nhw am eu doethineb a'u gweledigaeth.

I'r rhai y mae eu cyrff yn fregus a'u cryfder yn pallu, rho i ni drugaredd wrth ofalu amdany'n nhw, a boed i ni roi urddas yn rhodd iddyn nhw.

Fel gwarcheidwaid rhyddid, boed i ni fod ar ochr y brawd neu'r chwaer wannaf bob amser, boed lle wrth ein bwrdd bob amser i un arall.

Fel rhieni a gofawyr, boed i ni fod yn ddoeth yn ein hesiampl, yn onest yn ein hamheumon, yn hael iawn â'n cariad.

Boed i'n teuluoedd a'n cymunedau adlewyrchu gobaith dy fwrdd, dy gariad, dy gofleidiad; dy gariad; dy aberth.

Amen.

Sean Stillman

Gŵr/Tad/Bugail, Zac's Place



AR ÔL Y DIGWYDDIAD

Anogwch eich holl wahoddedigion i barhau i weddio dros yr arweinwyr, nodau eu cymuned a'u sectorau. Gallwch drefnu grwpiau gweddi llai hefyd a digwyddiadau dilynol i gynnal momentwm. Gall rhythm gweddi fod yn ffordd wych i unigolion, grwpiau bach a chynulleidfaedd cyfan i ganolbwyntio ar eu gweddiâu.

Mae'n bwysig cynnal y berthynas ag arweinwyr yn eich cymuned hefyd. Hyd yn oed os nad oedden nhw'n gallu dod i'r Digwyddiad Gweddi Dinesig. Cadwch mewn cysylltiad a gofyn iddyn nhw sut mae pethau'n mynd a chynnig gweddio drostyn nhw yn rheolaidd.

• **Busnes a Chyllid**

• **Addysg a Dysgu**

• **Iechyd a Lles**

• **Y Cyfryngau, y Celfyddydau ac Adloniant**

• **Gwleidyddiaeth a Llywodraeth**

• **Heddlu a Diogelwch**

• **Teulu a Chymuned**

Gweddi Agoriadol:

● **Cyfarfodydd Cynnydd**

Trefnwch gyfarfod gyda'r arweinwyr dinesig i wirio cynnydd yn erbyn eu nodau gweddi, tua chwe mis yn ddiweddarach.

● **Gweddi Bersonol**

Anogwch unigolion i ddefnyddio'r rhythm weddi i gofio pob un o saith sector bywyd a busnes y gymuned yn eu gweddiâu bob dydd. Gallech baratoi cardiau neu nodau llyfr gweddi i bobl fynd adref a'u defnyddio.

● **Grwpiau gweddi bach**

Sefydlwch grwpiau gweddi bach i ganolbwyntio ar wahanol sector bob tro maen nhw'n cyfarfod.

● **Gweddi Gynulleidfaol**

Ewch ati i gynnwys eglwysi lleol mewn gweddi reolaidd. Datblygwch rhythm o gyfweild pobl o sectorau gwahanol a rhannu eu nodau ar gyfer gweddi gyda chymuned yr eglwys leol.

CINNAMON

Mae Cinnamon yn frwdfrydig am helpu eglwysi i wneud gwahaniaeth cadarnhaol a gweddnewidiol yng nghalon eu cymunedau.

Rydym yn helpu eglwysi ledled Cymru i weddnewid eu cymunedau drwy estyn allan a meithrin perthynas sy'n rhoi bywyd gyda'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf.

Rydym yn darparu dewis o brosiectau arfer gorau wedi'u cydnabod gan Cinnamon y gall eglwysi eu hefelychu, gyda chynghor, cyllid, cymorth a hyfforddiant i arweinwyr. Rydym yn cydnabod bod pawb yn cyflawni mwy wrth weithio mewn partneriaeth ac felly, drwy fentrau fel Digwyddiadau Gweddi Dinesig, rydym yn helpu eglwysi i greu partneriaethau cymunedol cryf.

www.cinnamonnetwork.com

AMCANION CYMUNEDOL



Busnes a Chyllid

Nod



Addysg a Dysgu

Nod



Iechyd a Lles

Nod



Y Cyfryngau, y Celfyddydau ac Adloniant

Nod



Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

Nod



Heddlu a Diogelwch

Nod



Teulu a Chymuned

Nod

PARTNERIAID



team@cinnamonnetwork.com
www.cinnamonnetwork.com

Yn gwasanaethu'r genedl

© Cinnamon Network
© Cinnamon Network elusen
gofrestredig rhif 1156985

Cinnamon Network
Suite 7, Three Gables, Corner Hall, Hemel Hempstead
Hertfordshire HP3 9HN



COMMUNITY GOALS

| | | |
|-------------------------------|------|---|
| Business and Finance | Goal |  |
| Education and Learning | Goal |  |
| Health and Wellbeing | Goal |  |
| Media, Arts and Entertainment | Goal |  |
| Government and Politics | Goal |  |
| Policing and Security | Goal |  |
| Family and Community | Goal |  |

PARTNERS



© Cinnamon Network
 Registered charity no. 1156985
 Scottish charity registration no. SC047733

Cinnamon Network
 Suite 7, Three Gables, Corner Hall, Hemel Hempstead
 Hertfordshire HP3 9HN

To serve the nation

team@cinnamonnetwork.com
 www.cinnamonnetwork.com

AFTER THE EVENT

Encourage all guests to continue praying for the leaders, their community goals and their sectors. You can also organise smaller prayer groups and follow up events to maintain momentum. The prayer rhythm can be a really great way for individuals, small groups and whole congregations to focus their prayers. It's also important to maintain the relationships with the leaders in your community. Even if they weren't able to come to the Civic Prayer Event, stay in touch and ask them how things are going and offer to pray for them on an ongoing basis.

| | |
|------------|--------------------------------------|
| Monday: | Business and Finance |
| Tuesday: | Education and Learning |
| Wednesday: | Health and Wellbeing |
| Thursday: | Media, Arts and Entertainment |
| Friday: | Politics and Government |
| Saturday: | Policing and Security |
| Sunday: | Family and Community |

Ongoing Prayer:

- **Touch Point Meetings**
Arrange a 'touch-point' meeting with the civic leaders to check progress against their prayer goals, around six months later.
- **Personal Prayer**
